| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet** |
| **DYDDIAD** | **16 Chwefror 2016** |
| **TEITL** | **Cynllun Strategol 2016-17** |
| **PWRPAS** | **Sicrhau cymeradwyaeth y Cabinet i'r cynllun** |
| **AWDUR** | **Y Cynghorydd Dyfed Edwards** |
| **SWYDDOG CYSWLLT** | **Hawis Jones, Rheolwr Cynllunio Strategol a Pherfformiad** |

## 1. Y penderfyniad a geisir

Cymeradwyaeth y Cabinet i Gynllun Strategol 2016-17 i'w gyflwyno i'r Cyngor ar 3 Mawrth 2016.

## 2. Cyflwyniad

2.1 Cafodd y cynllun strategol gwreiddiol ar gyfer 2013-17 ei fabwysiadu gan y Cyngor ym mis Mai 2013.

2.2 Pwrpas adolygu'r cynllun eleni oedd edrych ar lle rydym wedi cyrraedd ar ôl tair blynedd o weithredu'r cynllun strategol, yn ogystal â gwneud yn siwr ein bod yn parhau i wneud y pethau iawn am flwyddyn olaf y cynllun. Er mwyn adolygu'n iawn, roedd angen inni ystyried beth oedd wedi newid ers y llynedd, gan edrych ar y materion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a pholisi sydd yn dylanwadu ar y Cyngor ac sy'n debygol o ddylanwadu ar lesiant pobl Gwynedd i'r dyfodol.

2.3 Mae'r cynllun yn gosod meysydd blaenoriaeth y Cyngor ar gyfer y cyfnod, y sefyllfa rydym yn dymuno ei gweld ar gyfer y meysydd hynny, ac yn disgrifio'r hyn y bydd y Cyngor yn ei wneud er mwyn cyrraedd y sefyllfa yn ystod y flwyddyn sydd i ddod. Mae hefyd yn cynnwys ein hamcanion gwella sydd yn canolbwyntio ar y materion y byddwn yn rhoi'r sylw pennaf iddynt dros gyfnod y cynllun.

2.4 Mae'r cynllun eleni wedi ei lunio mewn cyfnod o baratoi at tua £5miliwn o doriadau dros y ddwy flynedd nesaf, ac felly bu'n rhaid ystyried y cyd-destun hwnnw. Wrth adolygu'r cynllun, fe wnaethon ni ganfod barn trigolion Gwynedd ynglŷn â'r her sydd wedi ei gosod inni fel Cyngor i barhau i wneud ein gorau dros bobl Gwynedd er gwaethaf y ffaith fod gennym lai o gyllid nag erioed a bod y galw am ein gwasanaethau yn parhau i gynyddu. Ymatebodd dros 2,000 o drigolion Gwynedd i ymgynghoriad Her Gwynedd, ac rydym wedi defnyddio'r wybodaeth a gafwyd o'r sesiynau hynny wrth adolygu'r cynllun.

## 3. Ystyriaethau perthnasol

Nodir isod y materion sydd angen i aelodau'r Cabinet eu hystyried cyn cymeradwyo'r cynllun:

**3.1 Prosiectau wedi dod i ben**

Ni chynhwysir y prosiectau canlynol yng Nghynllun Strategol 2016-17 oherwydd eu bod bellach wedi dod i ben:

- Ysgol Bro Llifon
- Cytundeb Canlyniadau
- Toriadau. Bydd prosiect CA1 Gwireddu arbedion nawr yn canolbwyntio ar wireddu'r penderfyniadau a wneir ar doriadau yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd.
- Strategaeth Letya Pobl Hŷn. Mae gweithredu'r Strategaeth Letya Pobl Hŷn bellach wedi ei ymgorffori ym mhrosiectau G4: Tai Gofal Ychwanegol, G6: Darpariaeth Fewnol a G7: Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd.

**3.2 Prosiectau newydd**

3.2.1 Cynhwysir prosiect newydd yn y maes Gofal, sef G7: Capasiti a chynaliadwyedd y gyfundrefn gofal ac iechyd. O ymgorffori'r prosiect hwn yn y cynllun, rydym yn hyderus y bydd prosiectau G1-G4 yn ein gosod mewn lle cadarn i gyflawni gofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.

3.2.2 Mae maes Tlodi, Amddifadedd, Economi, Tai hefyd yn cynnwys prosiect newydd, T7: Digwyddiadau proffil uchel a strategol er mwyn canolbwyntio ar ddenu digwyddiadau proffil uchel cenedlaethol neu ryngwladol i Wynedd er mwyn manteisio ar y budd economaidd a chymdeithasol fydd yn deillio o hyn.

3.3 Mae'r prosiectau oll yn cynnwys cyfeiriad at lle rydym wedi ei gyrraedd hyd yma ac mae eu geiriad wedi ei adolygu i amlygu beth yn union rydan ni'n mynd i'w wneud er mwyn cyrraedd y sefyllfa rydan ni eisiau'i gweld.

**3.4 Toriadau**

Bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniadau a wneir ar y toriadau fod yn gyson gyda'r hyn y cytunir i'w gyflawni drwy'r cynllun strategol.

**3.5 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol**

Ymgorfforwyd cyfeiriadau at ofynion egwyddorion y ddeddf yn yr adran ar Adolygu'r Cynllun, ac hefyd yn yr adran sy'n amlinellu Gweledigaeth y Cynllun.

**3.6 Ymgynghori gyda gweddill aelodau'r Cyngor**

Gwahoddwyd gweddill aelodau'r Cyngor i gynnig sylwadau ar yr hyn a gynigir yn y cynllun, ac adroddir ar lafar yn y cyfarfod ar unrhyw sylwadau a dderbyniwyd.

**4. Rhesymau dros argymell y penderfyniad**

4.1 Mae'r hyn sydd gerbron fel cynllun drafft er sylw'r Cabinet yn adlewyrchu canlyniadau'r adolygiad, ac yn ddilyniant naturiol o Gynllun Strategol 2015-16. Bydd ei bwyslais yn parhau i fod ar wella gallu'r Cyngor i sicrhau'r gorau i bobl Gwynedd. Fe fyddwn yn gwneud hynny drwy drawsffurfio gwasanaethau i wasanaethau y byddwn yn gallu eu cynnal i'r dyfodol.

4.2 Mae gofyn statudol i baratoi ac ystyried canfyddiadau asesiad o effaith o safbwynt cydraddoldeb wrth baratoi y Cynllun Strategol yn unol â gofynion Deddf Cydraddoldeb 2010 fel y'i gweithredir yng Nghymru. Atodir yr asesiad yn Atodiad 2. Nid yw'r asesiad yn canfod unrhyw effaith fyddai yn cyfiawnhau gwyro oddi wrth yr argymhelliad a rhagwelir elfennau fyddai ag effaith positif.

**5. Camau nesaf ac amserlen**

O gymeradwyo'r cynllun, bwriedir ei gyflwyno i'w fabwysiadu yng nghyfarfod llawn nesaf y Cyngor ar 3 Mawrth 2016.

**6. Atodiadau/Llyfryddiaeth**

**6.1 Cynllun Strategol 2016-17**

**Atodiad 1**
Mesurau

**Atodiad 2**
Asesiad Effaith Cydraddoldeb

**6.2 Llyfryddiaeth**
Cynllun Strategol 2015-16

**Barn y swyddogion statudol**

**Y Prif Weithredwr:**
Yn amlwg, mae'n rheidrwydd arnom i fabwysiadu cynllun o'r fath ar gyfer y flwyddyn. Yr hyn sydd yn fwy anodd, wrth gwrs, eleni yw taro'r cydbwysedd iawn rhwng uchelgais y cynllun hwn ar un llaw a realiti proses Her Gwynedd a'r toriadau yr ydym yn gorfod eu gwneud ar y llall. Credaf bod y cynllun yn taro'r cydbwysedd hynny'n briodol ac rwy'n ei gymeradwyo i sylw'r Cabinet.

**Y Swyddog Monitro:**
Mae'n ofyn statudol bod y Cyngor yn sefydlu neu adolygu amcanion gwella yn flynyddol ac mae'r adroddiad ynghyd a'r argymhellion yn cyfarch hynny.

Rwy'n nodi hefyd y bu ymgynghori a'r cyhoedd fel rhan o'r adolygiad drwy gyfrwng Her Gwynedd.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Mae’n fuddiol bod y Cynllun Strategol yn cael ei gyflwyno yn yr un cylch â chyllideb 2016/17 a’r fersiwn newydd o’r cynllun ariannol tymor-canol (Strategaeth Ariannol 2016/17 – 2019/20), sydd wedi’i ymgorffori yn y Cynllun Strategol o dan ‘Cynllunio Ariannol’. Rwyf wedi cydweithio gydag awdur y Cynllun Strategol ar gynnwys yr agwedd honno, ac rwy’n cadarnhau cywirdeb ei gynnwys. Ymhellach, nodaf fod yr adroddiad ‘Cyllideb 2016/17’ ar raglen y cyfarfod yma’n nodi “fod prif flaenoriaethau’r Cyngor (materion datblygol er mwyn gwneud gwahaniaeth) yn cael eu hariannu a’u comisiynu ar wahân [i’r adroddiad ar y gyllideb], drwy’r Cynllun Strategol”.